# Cynllun Cymorth gyda Biliau Nwy (EBSS) Cyllid Amgen

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**Y Llywodraeth yn lansio porth ar gyfer 900,000 o aelwydydd ychwanegol ym Mhrydain i wneud cais am daliad £400 at filiau tanwydd.**

Gall aelwydydd heb berthynas uniongyrchol gyda chyflenwr trydan domestig wneud cais am gymorth gan y Llywodraeth at eu biliau tanwydd.

## Pwy sy'n gymwys?

Gallech fod yn gymwys i wneud cais os ydych yn talu am yr ynni a ddefnyddir yn eich cartref, mai hwn yw eich prif gartref parhaol a bod eich prif gartref yn:

- gartref parc preswyl
- ar gwch ar angoriad preswyl parhaol
- ar safle parhaol Sipsiwn a Theithwyr
- rhan o rwydwaith gwres heb fesurydd trydan
- mewn llety rhent cymdeithasol neu breifat sydd â chysylltiad ynni busnes neu gyflenwad trydan cymunol
- heb fod ar y prif grid trydan neu nwy
- mewn cartref gofal neu safle byw â chymorth a'ch bod yn talu rhai neu eich holl gostau gofal (yn uniongyrchol neu drwy golli pensiwn neu fudd-daliadau eraill)
- mewn cartref domestig ar wahân o fewn adeilad heb fod yn ddomestig (tebyg i ffermdy neu fflat uwchben siop)

**<u>NID</u> yw cwsmeriaid sy'n gymwys am gymorth dan y prif Gynllun Cymorth Biliau Ynni yn gymwys am gymorth dan agwedd cyllid amgen y cynllun.**

## Faint?

£400

## Pryd fyddaf i yn ei gael?

- Cewch glywed am gynnydd eich gais drwy e-bost neu lythyr. Dylech dderbyn ymateb o fewn 6 wythnos.
- Bydd yr Awdurdod Lleol yn trefnu taliad unigol os ydych yn gymwys. Nid yw'n rhaid i chi ad-dalu'r arian hwn.



Ewcn i **https://www.gov.uk/apply-energy-bill-support-if-not-automatic**
Os na fedrwch wneud cais ar-lein cysylltwch â thîm y llinelll.
E-bost: **alternativefunding@ebss.beis.gov.uk**
Ffôn: **0808 175 3287 Dydd Llun i Dydd Gwener (8am - 6pm)**

**<u>MAE'R BROSES YMGEISIO YN AGOR AR 27 CHWEFROR 2023 AC YN CAU AR 31 MAI 2023</u>**